Tai Gogledd Cymru

Y Mudiad

Wedi'i sefydlu ym 1974, mae Tai Gogledd Cymru heddiw yn fenter gymdeithasol lwyddiannus sy'n darparu cartrefi ac yn darparu gwasanaethau i dros 2,600 o aelwydydd ledled Gogledd Cymru. Mae'r sefydliad yn cynnig ystod eang o lety Tai â Chefnogaeth ledled Gogledd Cymru, gan gynnwys hosteli Digartref, cynllun Allgymorth ac Ailsefydlu Digartrefedd, cynllun Iechyd Meddwl, cynllun y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a chynlluniau Tai â Chefnogaeth wasgaredig.

Mae Hostel Noddfa ym Mae Colwyn yn darparu llety â chymorth dros dro i bobl ddigartref sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed ac angen cefnogaeth gyda byw a chyflogaeth o ddydd i ddydd.

Roedd y mudiad yn awyddus i gydweithio gyda Social Value Cymru i fesur effaith un o'u gwasanaethau ond hefyd i wreiddio'r dysgu yma ar draws eu gwasanaethau er mwyn deall effaith cefnogaeth tai ond hefyd er mwyn cefnogi eu cynllunio strategol.

Canlyniadu y adroddiad

- **Mae 80% o'r tenantiaid bellach yn teimlo'n gartrefol yn hostel Noddfa ac o ganlyniad maent yn teimlo llai o bryder a lefelau straen**
- **Roedd 60% o denantiaid yn teimlo eu bod yn lleihau'r teimlad o unigedd ar ôl symud i hostel Noddfa**
- **Mae tenantiaid yn teimlo cynnydd mewn annibyniaeth unigol gyda'r help a gawsant**
- **Mewn perthynas â'r ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae gwaith TGC yn cyfrannu at 'Cymru lachach'**

Y camau nesaf

"Mae wedi bod yn wych gweithio gydag Eleri a'r tîm yn ystod y prosiect hwn. Fe ddaethon nhw â llawer iawn o arbenigedd a phrofiad, sydd wedi helpu i gynhyrchu canlyniad prosiect llwyddiannus iawn o enillion gwerth cymdeithasol cadarnhaol ar gyfer yr Hostel Digartref. Y cam nesaf i TGC yw lledaenu'r dysgu hwn ar draws y gwasanaeth Tai â Chefnogaeth, er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu naratif gwerth cymdeithasol ar gyfer ein cynlluniau Tai â Chefnogaeth eraill."
***Brett Sadler,* Cyfarwyddwr Gweithrediadau**

svc@mantellgwynedd.com

www.mantellgwynedd.com/social-value-cymru.html